# Pwyllgor Adnoddau Dynol

**24 Tachwedd 2021**

Yn Bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)
Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Mr GA Jones, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd A Wilcox a’r Cynghorydd S Yelland.

[Cyrhaeddodd y Cynghorydd P Harries adeg ystyried y Diweddariad Adnoddau Dynol (gweler Cofnod 5).]

(Cyfarfod rhithiol: 2.30p.m. – 4.30p.m.)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd Mrs D Clements a’r Cynghorydd ML Evans.

**2. Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2021 i’w cadarnhau a’u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2021.

**4. Gwasanaeth Clust i Wrando**
Gan nodi ei bod yn chwe mis bellach ers i'r 'Gwasanaeth Clust i Wrando' gael ei sefydlu, gofynnodd un Aelod am y wybodaeth ddiweddaraf am yr arbrawf. Atebodd y Rheolwr AD bod adborth anffurfiol gan staff ac Aelodau wedi bod yn gadarnhaol, er nad oedd yn credu bod y gwasanaeth wedi'i ddefnyddio'n helaeth gan fod llwybrau eraill i godi pryderon ar gael. Cytunodd i baratoi adroddiad byr ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor fel y gellid gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid parhau â'r gwasanaeth neu beidio.

**Nodwyd.**

**5. Diweddariad Adnoddau Dynol**
Rhoddodd y Rheolwr AD ddiweddariad llafar ar bedwar maes gwaith allweddol y bu ei dîm yn gweithio arnynt yn ystod y chwarter diwethaf.
a) Gwerthoedd Craidd – Dywedwyd bod tystiolaeth eang mai un o nodweddion sefydliadau llwyddiannus oedd cytundeb gan staff a rheolwyr ar set o werthoedd craidd. Roedd y staff wedi nodi rhestr hir o 26 o werthoedd, a chyn hir gofynnir iddynt flaenoriaethu'r gwerthoedd

hynny fel y gellid datblygu'r pump neu chwe gwerth â'r sgôr gyfunol uchaf, a'u hymgorffori ym mywyd y sefydliad.
b) Hyfforddiant ar Wella Cydnerthedd a Rheoli Straen – Atgoffwyd y Pwyllgor bod rhaglen hyfforddi i helpu staff i reoli straen a bod yn fwy cydnerth wedi'i threialu, a phleser gan y Rheolwr AD oedd gallu dweud bod tystiolaeth yn dangos bod hyn wedi helpu'r rhai a gymerodd ran i ymdopi'n well â phwysau a straen. Roedd gwaith wedi'i wneud i ddatblygu'r rhaglen i'w defnyddio gan y Tîm Rheoli Datblygu, a phe bai hynny'n llwyddiannus, byddai'r rhaglen yn cael ei chyflwyno i dimau eraill ar draws yr Awdurdod.
c) Iechyd a Diogelwch a Llesiant – Roedd gwaith wedi bod ar y gweill i ddigideiddio data adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau, a'r gobaith oedd cyflwyno Ap fis Ionawr y gallai'r staff ei gyrchu drwy unrhyw ddyfais symudol i adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau o hyn ymlaen.
d) Metrigau Allweddol - Yn olaf, cyflwynodd y Rheolwr AD ddangosfwrdd o fetrigau allweddol i'r Pwyllgor am sylwadau. Roedd y metrigau'n cynnwys nifer manwl y staff, y rhai sy'n ymuno ac yn gadael, oedran, hyd gwasanaeth, cyrhaeddiad mewn sgiliau Cymraeg, a chyfraddau absenoldeb. Byddai'r cyd-destun yn cael ei gyflwyno i gyfarfodydd yn y dyfodol fydd yn amlygu tueddiadau, a'r camau a gymerir i fynd i'r afael ag unrhyw duedd sy'n peri pryder.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am ddiweddariad cynhwysfawr, gan ganmol y dangosfwrdd metrigau dwy dudalen. Fodd bynnag gofynnwyd a ellid dosbarthu'r wybodaeth hon iddynt drwy'r e-bost gan fod rhai o'r manylion yn anodd eu darllen ar y sgrîn. Awgrymwyd ar gyfer rhai o'r mesurau y byddai'n ddefnyddiol cael yr ystadegau cyffredinol ar gyfer Sir Benfro i weld a oedd ystadegau'r Awdurdod yn cynrychioli'r sir gyfan. Hefyd roeddent yn canmol y gwaith ar werthoedd, ac yn cydnabod bod gwerthoedd wrth reswm yn bwysig, ond yn nodi mai anodd yn aml yw cytuno ar y gwerthoedd hyn a'u hymgorffori.

**Nodwyd.**

**6. Eithrio'r Cyhoedd**

**Penderfynwyd** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 15 a 18a o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu.

*(Cyflwynodd y Cynghorydd M James ei ymddiheuriad ar y pwynt hwn, gan fod yn rhaid iddo adael y cyfarfod. Mrs J James, y Dirprwy Gadeirydd, gadeiriodd weddill y cyfarfod. Hefyd ymddiheurodd Dr R Heath-Davies a gadael y cyfarfod yn ystod y ddadl ar yr eitem ganlynol.)*

7. **Ailstrwythuro'r sefydliad**

Atgoffwyd yr Aelodau y gofynnwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor am ddiweddariad ar yr adolygiad cyflogau a graddfeydd fyddai'n dilyn o'r adolygiad arfaethedig o strwythur yr Awdurdod.

Fodd bynnag, cyn i'r papur ar y prosiect adolygu graddfeydd gael ei gyflwyno, roedd swyddogion o'r farn mai buddiol fyddai rhoi trosolwg i'r Aelodau yn y lle cyntaf o'r broses gyffredinol fyddai'n cael ei defnyddio wrth ailstrwythuro'r sefydliad, gan grynhoi'r cerrig milltir allweddol i'w dilyn wrth weithredu'r strwythur newydd.

Diolchodd yr Aelodau i'r Prif Weithredwr a'r Rheolwr AD am yr adroddiad a'r cyflwyniad, a chefnogwyd y trywydd a ddilynir. Fodd bynnag, roeddent yn dymuno cael gwybod yn rheolaidd am y camau ymlaen a gymerir, a phwysleisiwyd yr angen i sicrhau bod pecyn cyfathrebu a chymorth cadarn yn ei le ynglŷn â'r broses.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai proses o ymgynghori â'r staff a'r Undebau Llafur yn cychwyn yn y Flwyddyn Newydd ac y byddai'n dod ag adroddiad yn ôl i'r Aelodau yn dilyn y broses honno.

**Nodwyd.**

8. **Prosiect adolygu graddfeydd**

Dywedwyd bod yr adolygiad graddfeydd diwethaf ar draws yr Awdurdod wedi'i gynnal flynyddoedd maith yn ôl. Gan fod y gwaith o ailstrwythuro'r sefydliad bellach ar y gweill, penderfynwyd bod yr amser yn iawn i gynnal adolygiad o'r graddfeydd ochr yn ochr â'r broses honno.

Roedd yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw yn rhoi manylion am y broses gyfredol a ddefnyddir i raddio cyflogau, ac yn nodi'r rhesymeg dros symud i fodel gwahanol i sicrhau y byddai'r strwythur cyflogau diwygiedig yn addas at y diben a'i brawfesur yn y dyfodol.

Roedd yr Aelodau'n cefnogi'r fframwaith arfaethedig fel y'i nodwyd yn yr adroddiad, ond yn pwysleisio'r angen i hysbysu'r holl staff am yr amserlen a'r cerrig milltir allweddol drwy gydol y broses.

**Nodwyd.**

9. **Proses flaenoriaethu**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar i'r Aelodau ar y camau a wnaed hyd yn hyn ar y broses o flaenoriaethu.

**Nodwyd.**

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 25 Mai 2022 heb eu diwygio.